

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	26 Ebrill 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc / Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Uwch Reolwr Addysg
Teitl:	Cynnydd disgyblion o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 (CA4)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ystyried canfyddiadau'r astudiaethau a gynhaliwyd ar ddisgyblion Blwyddyn 10, o ddewis pynciau i gyrhaeddiad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion Sir Ddinbych yn arholiadau allanol 2017.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'n hyderus bod pob disgybl yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial llawn yng nghyfnod allweddol 4.

4. Cynnydd disgyblion o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 (CA4).

Nid oes mesuriad cyffredinol o'r cyfnod sylfaen i ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Ar hyn o bryd, y prif fesuriad perfformiad yn CA2 yw Trothwy Lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, nid yw hwn yn fesur ar unrhyw gyfnod allweddol arall mewn ysgolion.

Mae gan ysgolion uwchradd yng Nghymru raglen dreigl o newidiadau i fesurau perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 tan 2020. I ddarparu cysondeb yn ystod y cyfnod hwn, a thymor cyngor newydd, bydd dangosydd perfformiad lleol newydd yn mesur nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 2, yn erbyn y rhai hynny sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2 yn ystod TGAU. Mae'r dangosydd hwn yn gysylltiedig ag uchelgeisiau newydd y cynllun corfforaethol newydd, a adroddir i'r aelodau yn Ionawr 2019.

I fesur cynnydd disgyblion o flwyddyn 10 i flwyddyn 11 yn gywir ac yn hawdd, defnyddir asesiadau llinell sylfaen athrawon ar ddiwedd CA3 pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 9. Y prif ddangosydd yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yw'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC). Yng Nghyfnod Allweddol 3, y DPC yw nifer y disgyblion sy'n llwyddo

mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn Lefel 5. Yng Nghyfnod Allweddol 4, dyma nifer y disgyblion sy'n cael gradd C TGAU mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r dangosydd hwn yn cael ei ddileu'n raddol o Gyfnod Allweddol 4.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n ennill DPC yn CA3 yn llawer uwch nag yn CA4, mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer mwy o fanylder gydag arholiadau TGAU o'i gymharu ag asesiadau athrawon, ac ymgysylltu â dysgu nifer o ddisgyblion yn CA4. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn unol yn eang â'r cyfartaledd Cymreig a safle Sir Ddinbych.

Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) 2015-17

Cyfnod Allweddol 2	2015	Safle	2016	Safle	2017	Safle	Safle cyfartalog 3bl
Sir Ddinbych	87.9	12	92.7	14	92.7	17	14eg
Cymru	87.7	0	88.6	0	89.5	0	
Cyfnod Allweddol 3	2015	Safle	2016	Safle	2017	Safle	Safle cyfartalog 3bl
Sir Ddinbych	84.3	12	86.4	12	85.6	18	14eg
Cymru	83.9	0	85.9	0	87.4	0	
Cyfnod Allweddol 4	2015	Safle	2016	Safle	2017	Safle	Safle cyfartalog 3bl
Sir Ddinbych	51.9	12	56.5	14	48.3	20	15fed
Cymru	54.8	0	57.6	0	54.1	0	

Safle disgwyliedig CSDd yw 14eg yn erbyn safle FSM yng Nghymru

Yn 2017, cyflawnodd 48.3% y DPC yn CA 4, cyflawnodd 84.3% o'r cohort y DPC yn CA 3. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cyflawni'r DPC yng nghyfnod allweddol 4 hefyd yn gallu cael ei briodoli i sawl ffactor, yn cynnwys symud disgyblion i mewn ac allan o'r sir, datgysylltu â dysgu, neu ddisgyblion lle nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae llawer mwy o ddisgyblion yn cyflawni DPC yn CA3 ym mhob categori anghenion addysgol arbennig (AAA) dros y perfformiad a welir yn CA2. Mae yna ostyngiad mewn disgyblion AAA sy'n cyflawni DPC yn CA4, o'i gymharu â disgyblion sy'n cyflawni DPC yn CA3. Cyflawnodd 27 o ddisgyblion DPC yn CA2, ond ni wnaethant gyflawni DPC yn CA3 neu CA4. Cyflawnodd 275 o ddisgyblion DPC yn CA2 a CA3, ond ni wnaethant gyflawni DPC yn CA4.

Ar ddiwedd CA 3, bydd pobl disgybl naill ai wedi dewis cyrsiau sy'n bodloni eu hanghenion addysgol, naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg am ran o'r wythnos. Mae yna rai disgyblion sy'n derbyn rhaglenni pwrpasol gan golegau AB neu drwy ddarpariaeth arbenigol, a ariennir drwy ysgolion neu brosiect TRAC Ewropeaidd. Mae hyn wedi arwain at Sir Ddinbych yn cyrraedd yr 8fed safle yng Nghymru ar gyfer disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Mae canfyddiadau'r adolygiad o'r ymyriadau i gefnogi disgyblion i gael y deilliannau gorau posibl wedi amlygu eu bod wedi llwyddo yn gyffredinol. Mae'r gostyngiad yn 2017 o ganlyniad i arholiadau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg, Saesneg a mathemateg, a materion penodol mewn rhai ysgolion uwchradd. Y strategaethau ymyrryd i gefnogi amcanion y cynllun corfforaethol sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac sy'n parhau i ddatblygu mewn ysgolion uwchradd yw:

- rhedeg rhaglen o ddsbarthiadau adolygu yn ystod y gwyliau ac ar ôl ysgol, wedi'u targedu'n benodol ar gyfer disgyblion mewn perygl o beidio â chyflawni.
- defnyddio'r adnoddau 'Pixel' a ariannwyd ar y cyd gan yr ALI, GwE ac ysgolion i gefnogi athrawon a disgyblion gyda'r arholiadau TGAU newydd.
- rhaglen hyfforddiant helaeth a ddarparwyd gan GwE i gefnogi athrawon wrth weithredu'r arholiadau TGAU newydd.
- defnyddio TRAC a chyllid 14-19 i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion sydd mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant).
- darparu mentoriaid i ddisgyblion ar ddarpariaeth tu allan i'r ysgol, sy'n monitro ac yn cefnogi cynnydd dysgwyr diamddiffyn.
- ysgolion yn defnyddio systemau tracio data, rhai wedi'u modelu ar y systemau soffistigedig iawn a ddatblygwyd gan Ysgol Brynhyfryd.
- tracio perfformiad disgyblion gydag anghenion addysg arbennig (AAA) a grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai ar brydau ysgol am ddim, dros dro neu ddisgyblion lle nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg neu'n Saesneg. Atodiad 1
- Ailfodelu'r ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) ar y cyd â phenaethiaid uwchradd i sicrhau bod pob person ifanc yn ennill achrediad cyflogadwyedd a chymwysterau yn Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae GwE yn tracio canlyniadau disgwyliedig disgyblion yn CA3 a 4 bob tymor, mae GwE hefyd yn datblygu dangosfwrdd i dracio a monitro cynnydd disgyblion ac ysgolion.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol bod pob plentyn sy'n cyflawni'r safon a ddisgwylir ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith 1af) a Mathemateg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd.
- Helpu pobl ifanc i ddatblygu 'sgiliau byw' ymarferol ac ymddygiad sy'n cyfrannu at iechyd a lles da.
- Darparu cyngor gyrfaoedd a mentora effeithiol i bobl ifanc.
- Datblygu rhagor o gyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y [wefan](#), a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

*Sir Ddinbych ffyniannus
Sir Ddinbych wydn
Sir Ddinbych iachach
Sir Ddinbych fwy cyfartal
Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol
Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang*

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Amherthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd yr ALI a GwE yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu cywir er mwyn gwella safonau.

I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a heriau yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gwasanaeth addysg rhanbarthol (GwE).

Sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau allanol.

Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid TRAC Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

Swyddog Cyswllt:

Uwch Reolwr Addysg

Rhif ffôn: 01824 708027